**EXD 178(AI)**
**Llywodraeth Cymru**
**Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2018/1136**
**Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) Cymru) 2006**

---

# Trwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu grynhoad arall sy’n cynnwys casglu Dofednod at ei gilydd yng Nghymru

1) Yn unol â rheoliad 6(1) o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) O.S. 2006/2803 (Cy. 242) (“Rheoliadau 2006” neu “Reoliadau 2006”), mae Gweinidogion Cymru yn rhoi’r drwydded gyffredinol hon sy’n caniatáu crynhoi’r adar a ddisgrifir isod, ar yr amod fod y trwyddedai yn cydymffurfio â’r amodau yn yr Atodlen:

- adar *galliforme* (gan gynnwys ffesantod, petris, soflieir, ieir, tyrcwn, ieir Gini);
- adar *anseriforme* (gan gynnwys hwyaid, gwyddau, elyrch);
- adar sy'n cael eu magu neu’n cael eu cadw mewn caethiwed i gynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, cynhyrchu cynhyrchion masnachol eraill, ar gyfer ailstocio cyflenwadau o helgig neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar.

2) Mae asesiad risg milfeddygol wedi cael ei gynnal yn unol â rheoliad 6(3) o Reoliadau 2006.

3) Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon (yn ddarostyngedig i’r amodau yn yr Atodlen), na fydd crynhoi a symud adar i grynoadau, ac oddi yno, yn cynyddu’n sylweddol y risg o drosglwyddo feirws y ffliw adar.

4) Mae’r drwydded gyffredinol hon yn berthnasol i’r broses o gasglu adar a ddisgrifir ym mharagraff 1 mewn ffeiriau, marchnadoedd, sioeau, arddangosfeydd a chrynoadau eraill sydd i’w cynnal ar neu ar neu ar ôl 24 medi 2024, yn ddarostyngedig i’r amodau yn yr Atodlen.

5) Yn unol ag Erthygl 4(4)(e) o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1136 ("y Penderfyniad") mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r drwydded gyffredinol hon sy'n caniatáu, yn amodol ar gydymffurfio gan y trwyddedai â'r amodau yn yr Atodlen, crynhoi adar a ddisgrifir ym mharagraff 1 yn yr ardaloedd risg uwch a nodwyd gan Weinidogion Cymru dan y Penderfyniad.

6) Mae asesiad epidemiolegol wedi'i gynnal yn unol ag Erthygl 4(1) o'r Penderfyniad.

7) Mae’r Trwydded Cyffredinol dyddiedig 26 Ebrill 2024 wedi’i ddiddymu efo effaith o 14:00 ar 24 Medi 2024.

8) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu’r drwydded gyffredinol hon unrhyw bryd yn ysgrifenedig, gan ddod i rym yn syth os bydd yr asesiad risg milfeddygol yn newid mewn perthynas â’r risg y bydd y feirws ffliw adar yn ymledu yn unol â rheoliad 3(1) o Reoliadau 2006.

Llofnodwyd gan Richard Irvine, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Ar ran Gweinidogion Cymru:

*Am 14:00 ar 24 Medi 2024*

**Mae peidio â chydymffurfio â’r drwydded hon yn drosedd dan Reoliadau 2006 a gall person a geir yn euog wynebu dirwy a/neu garchar o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.**

# Atodlen amodau

## Cyffredinol a dehongli

1) Yn yr Atodlen hon:

- “trwyddedai” yw’r sawl sy’n trefnu’r crynhoad adar ac sy’n gyfrifol am gydymffurfio ag amodau’r drwydded hon;
- “digwyddiad” yw term arall a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ar gyfer un crynhoad;
- “cyfranogwr” yw unigolyn sy’n dod ag adar i grynhoad neu’n eu symud o gwrtil crynhoad ar ôl y digwyddiad;
- “cwrtil” y crynhoad yw holl ardaloedd mangre neu gerbyd sy’n cael eu defnyddio ar gyfer crynhoad, sy’n cynnwys ardaloedd lle mae cynnyrch dofednod ac adar byw yn cael eu cadw, ac ardaloedd lle mae gwastraff (fel sarn, tail neu ddeunydd wastraff arall sy’n dod o anifeiliaid) yn cael eu storio;
- mae “mangre” yn cynnwys unrhyw dir, adeiladau neu fan arall. Fel nad oes dim amheuaeth, mae hyn yn golygu pob man cyhoeddus neu breifat, fel meysydd parcio, tir diffaith a chilfannau;
- mae “cerbyd” yn cynnwys trelar, lled-drelar neu rywbeth arall a ddyluniwyd neu a addaswyd i gael ei dynnu gan gerbyd arall; rhan o unrhyw gerbyd y gellir ei datgysylltu; a chynhwysydd neu strwythur arall a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei gario ar gerbyd;
- mae “arbenigwr adar” yn berson(au) penodol a benodir gan y trwyddedai sy’n geidwad adar profiadol o’r rhywogaeth o aderyn/adar yn y crynhoad. Nid oes angen i’r person fod yn filfeddyg ond rhaid iddo fod yn ddigon profiadol i adnabod yr arwyddion o afiechyd.

## Hysbysu

2) Rhaid i’r trwyddedai hysbysu’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) o leiaf saith niwrnod cyn y digwyddiad.

3) Rhaid i unrhyw hysbysiad a fydd yn cael ei gyflwyno i APHA gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

(a) y dyddiad (neu’r amrywiol ddyddiadau) y bydd y crynhoad adar yn digwydd;

(b) lleoliad y crynhoad, yn cynnwys cyfeiriad post llawn a’r cod post, a rhif y daliad (CPH) (os yw’n berthnasol)

(c) manylion y trwyddedai, yn cynnwys enw llawn y person cyswllt, cyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os yw ar gael)

(d) y nifer a’r math(au) o adar a ddisgwylir yn y crynhoad

(e) diben neu ddibenion y crynhoad.

4) Os bydd unrhyw newidiadau i’r wybodaeth a ddarperir yn amod 3, pwyntiau (a), (b), (c) neu (e) neu unrhyw newidiadau sylweddol o dan (d) sy’n digwydd rhwng cyflwyno’r hysbysiad ac unrhyw ddigwyddiad, rhaid rhoi gwybod i APHA cyn gynted ag y bo modd cyn y digwyddiad.

5) Os yw’r digwyddiad ar ffurf masnacha rheolaidd neu werthiant o bell dros y rhyngrwyd, rhaid i’r fangre ac unrhyw gerbyd a ddefnyddiwyd gan y trwyddedai ar gyfer crynhoi’r adar yn dilyn y cyfryw werthiant gael ei gofrestru ag APHA, a rhaid i’r trwyddedai roi gwybod i APHA yn flynyddol o leiaf ba mor aml y cynhelir gwerthiannau o’r fath a’u maint.

**Bioddiogelwch ac Olrhain**

6) Rhaid i’r trwyddedai gymryd pob cam rhesymol i atal clefyd adar hysbysadwy rhag ymledu i’r fangre, o fewn y fangre ac oddi ar y fangre neu’r cerbyd lle mae’r crynhoad yn cael ei gynnal ac mewn achos o’r clefyd neu amheuaeth ohono bydd modd olrhain pob cryhoad.

7) Rhaid i drwyddedai unrhyw ffair, marchnad, sioe neu arddangosfa ddarparu cyngor am fioddiogelwch i bob cyfranogwr cyn y cyfryw ddigwyddiad. Rhaid i’r cyngor hwnnw gynnwys:

(a) argymhelliad y dylai adar gael archwiliad iechyd cyn teithio i unrhyw ddigwyddiad; a

(b) argymhelliad y dylai unrhyw adar sy’n teithio o grynhoad i unrhyw fangre (pa un a ydynt yn dychwelyd i’r fangre y daethant ohoni neu i leoliad newydd) gael eu cadw oddi wrth adar eraill yn y fangre honno a bod eu hiechyd yn cael ei fonitro am o leiaf wythnos ac yn ddelfrydol am 14 niwrnod wedyn; a

(c) cadarnhad bod yn rhaid cofrestru safle’r tarddiad ar gyfer unrhyw adar sy'n mynd I grynhoad gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar Gofrestr Dofednod ac Adar Caeth eraill Prydain Fawr ac y bydd angen i geidwad unrhyw adar sy'n mynd i grynhoad ddarparu tystiolaeth o gofrestru cyn cael mynediad; a

(d) cyngor y gwrthodir mynediad i'r casgliad os yw'r fangre wreiddiol wedi'i lleoli mewn parth rheoli clefydau neu barth atal clefydau ar adeg mynediad i'r casgliad ac y bydd hyn yn cael ei wirio wrth fynd i mewn.

8) Rhaid i’r trwyddedai beidio â chaniatáu i unrhyw gaets, crât, basged, neu gynhwysydd arall ddod i grynhoad pan ellir gweld ei fod wedi’i halogi â thail adar, neu ddeunydd arall sy’n dod o adar, ac eithrio ysgarthion a gynhyrchir wrth i’r adar gael eu cludo i’r

crynhoad. Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r holl gyfranogwyr ymlaen llaw am y gofyniad hwn, yn ei lenyddiaeth hysbysebu, ar ffurflenni cofrestru neu drwy unrhyw ddull priodol arall.

9) Rhaid i'r holl arwynebau solet sy'n agored i ddeunydd ysgarthol neu adar gael eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl gan y trwyddedai cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r adar adael y crynhoad a chyn y digwyddiad nesaf. Mae'r arwynebau hyn yn cynnwys ardaloedd llawr caled, concrit, mannau wedi'u tarmacio neu wedi'u palmantu, lloriau, waliau, byrddau a cherbydau a ddefnyddiwyd yn y digwyddiad. Oni ellir glanhau a diheintio ardal (mannau glaswelltog er enghraifft), ni cheir cynnal crynhoad arall nes y bydd yn cael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan APHA.

10) Rhaid i'r trwyddedai:

i) sicrhau na fydd dim adar yn cael dod i mewn i grynhoad oni fydd y cyfranogwr yn datgan nad ydynt yn dod o fangre neu ardal sydd o dan gyfyngiadau lle mae presenoldeb clefyd adar hysbysadwy yn cael ei amau neu wedi'i gadarnhau, gan gynnwys o unrhyw barth rheoli clefyd dros dro sydd wedi'i osod gan Weinidogion neu fod y safle mewn Parth Atal Ffliw Adar ac y gall ddarparu Rhif y Daliad dilys i gadarnhau hyn;

ii) sicrhau bod yn rhaid i filfeddyg fod ar gael ar fyr rybudd gydol yr amser y mae adar yn bresennol yn y digwyddiad. Hefyd rhaid i'r trwyddedai gysylltu â'r milfeddyg hwnnw os bydd adar yn dangos arwyddion o afiechyd neu broblemau yn ymwneud â'u lles; a

(iii) sicrhau bod yr adar pan fyddant yn cyrraedd lleoliad y digwyddiad yn cael eu cadw ar wahân i'r holl adar eraill yn y digwyddiad nes bydd yr holl adar wedi cael eu harchwilio'n unigol gan arbenigwr adar penodedig sydd wedi'i ddynodi gan y trwyddedai; a

iv) sicrhau yr hysbysir APHA yn syth os bydd unrhyw adar yn methu'r archwiliad, neu'n dangos arwyddion posibl o glefyd adar hysbysadwy yn ystod y digwyddiad. Hefyd, rhaid i'r adar hyn gael eu rhwystro rhag bod yn rhan o'r crynhoad a'u cadw ar wahân i adar eraill ar unwaith nes y bydd arolygydd milfeddygol wedi'u harchwilio a bod awdurdod ysgrifenedig wedi'i gael gan APHA sy'n caniatáu iddynt adael y crynhoad; a

v) sicrhau bod deunydd gwastraff, gan gynnwys unrhyw fwyd y gall unrhyw adar fod wedi mynd ato, a phob sarn, tail, carcasau adar neu ddefnydd arall sy'n dod o adar ac sydd wedi'u gadael ar ôl ar ddiwedd y digwyddiad yn cael eu:

a. gwaredu fel na all adar (yn cynnwys adar gwyllt) fynd atynt (dylai hyn gynnwys defnyddio bagiau dwbl, ac wedyn eu symud yn ddiogel gan gwmni gwastraff trwyddedig addas); neu

b. trin er mwyn cael gwared â'r risg o drosglwyddo clefyd.

vi) sicrhau bod unrhyw gaetsys, cratiau, basgedi, corlannau neu gynwysyddion arall na chawsant eu symud o'r fangre neu gerbyd a ddefnyddiwyd ar gyfer y crynhoad gan y rheini a ddaeth i'r crynhoad yn cael eu glanhau a'u diheintio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y crynhoad ac ym mhob achos cyn iddynt gael eu defnyddio eto; a

vii) sicrhau bod cyfleusterau glanhau a diheintio (er enghraifft, cyfleusterau golchi dwylo, matiau diheintio a dipiau traed) ar gael i gyfranogwyr ac ymwelwyr yn y safle, a bod cyfranogwyr yn glynu wrth arferion bioddiogelwch da; a

viii) sicrhau nad oes neb y gellir gweld ei fod wedi'i heintio â thail, plu neu ddeunydd arall sy'n dod o adar yn cael dod i mewn i ardal yr adar nes y ceir gwared â halogiad o'r fath.

**Lleoliad y crynhoad**

11) Rhaid peidio â lleoli'r crynhoad mewn unrhyw Barth Diogelu hysbysadwy ar gyfer clefydau adar, Parth Cadw Gwyliadwriaeth neu Barth Rheoli Dros Dro, Parth Cyfyngu ar Symud Dros Dro neu Ardal Dan Gyfyngiadau Ffliw Adar Pathogenedd Isel neu Barth Atal Ffliw Adar, ac os caiff un ei osod yn ystod y crynhoad, rhaid rhoi trefniadau'r cynllun wrth gefn ar waith yn syth (gweler amod 15 isod) a gofyn am gyngor gan APHA.

**<u>Cadw cofnodion</u>**

12) Rhaid i'r trwyddedai fynnu bod yr holl gyfranogwyr sy'n dod ag aderyn neu adar i grynhoad, yn llenwi ac yn dychwelyd ffurflen ddatgan wedi'i llofnodi cyn y caniateir mynediad i fannau lle mae adar byw yn cael eu cadw neu'n cael eu crynhoi, gan gadarnhau:

a) eu bod wedi darllen yr wybodaeth am fioddiogelwch a gafodd ei darparu ac y byddant yn cydymffurfio yn llawn â'r holl wybodaeth honno;

b) nad yw'r adar hyd eithaf eu gwybodaeth wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw fath o glefyd adar hysbysadwy ac nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o haint; a

c) cyfeiriad mangre wreiddiol yr adar, gyda chadarnhad nad yw'r adar yn dod o fangre mewn Parth Diogelu, Parth Cadw Gwyliadwriaeth, Parth Rheoli Dros Dro, Parth Rheoli Symudiadau Dros Dro, neu barth rheoli clefyd adar hysbysadwy arall ac nad yw'n dod o Barth Atal Ffliw Adar; a

d) bod y fangre wreiddiol wedi cofrestru gydag APHA ar Gofrestr Dofednod ac Adar Caeth eraill y DU a'u bod wedi rhoi manylion Rhif y Daliad; a

13) Rhaid i'r trwyddedai gadw cofnod o'r holl bobl sy'n dod ag adar eraill i'w crynhoad, neu sy'n mynd â'r cyfryw adar o'r crynhoad, a chadw'r cofnod hwnnw am o leiaf dri mis ar ôl y digwyddiad, a ble yn bosibl dylai hwn fod mewn fformat sydd ar gael yn electronig. Rhaid i'r trwyddedai gyflwyno'r cofnodion hyn ar gais arolygydd APHA neu arolygydd

Awdurdod Lleol. Rhaid rhoi'r cofnod i arolygydd os gaiff gais i wneud hynny. Rhaid i'r cofnod gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

a) enw llawn;

b) cyfeiriad cartref gan gynnwys y cod post a manylion mangre wreiddiol yr adar os yw'n wahanol i'r cyfeiriad cartref, gan gynnwys Rhif y Daliad.

c) rhifau ffôn (llinell dir a/neu symudol)

d) cyfeiriad e-bost (os yw ar gael)

e) y nifer a'r mathau o adar a gafodd eu harddangos, eu rasio, eu hailgartrefu, eu prynu neu eu gwerthu, manylion cyrchan wreiddiol a newydd yr adar

f) y datganiad wedi'i lofnodi yn cynnwys yr holl fanylion y cyfeirir atynt yn amod 12

14. Fel amod ar gyfer cael mynediad i bob digwyddiad neu grynhoad, rhaid i'r trwyddedai fynnu bod yr holl gyfranogwyr yn archwilio'u hadar am unrhyw haint cyn ymadael â'r digwyddiad neu grynhoad.

**Cynllun Wrth Gefn**

15. Rhaid i'r trwyddedai fod â threfniadau cynllun wrth gefn ysgrifenedig ar waith a'r rheini ar gael i'w harchwilio. Bydd y rhain yn nodi beth fydd yn digwydd os bydd clefyd adar hysbysadwy yn cael ei amau neu ei gadarnhau yn y digwyddiad neu gerllaw. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

i) sut y bydd adar yr amheuir bod ganddynt glefyd adar hysbysadwy yn cael eu gwahanu oddi wrth adar eraill;

ii) os amheuir bod clefyd adar hysbysadwy yn y crynhoad, rhaid i'r cynllun esbonio sut bydd adar yn cael eu cadw yn y fangre neu'r cerbyda a ddefnyddiwyd ar gyfer y crynhoad nes y bydd Arolygydd Meddygol APHA wedi rhoi cyfarwyddyd a fydd yn caniatáu i adar adael y fangre;

iii) trefniadau i gadw adar ym mangre'r digwyddiad neu gerbyd a ddefnyddiwyd ar gyfer y crynhoad os yw'r symudiadau oddi yno wedi cael eu cyfyngu oherwydd i'r crynhoad wedyn fod mewn parth rheoli clefyd adar hysbysadwy.

**Nodiadau**

1) Mae'r rheolau statudol ar grynoadau adar yn berthnasol i bawb sy'n cadw adar, pa un a yw'r adar yn cael eu cadw'n fasnachol, fel diddordeb neu fel adar anwes.

2) Bwriad y gwaith o reoli crynoadau adar yw lleihau'r risg o ledu feirws ffliw adar sydd heb ei ganfod. Mae rheoliad 6 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 yn gwahardd casglu dofednod neu adar caeth eraill oni fydd Gweinidogion Cymru yn trwyddedu hynny. Mae Rheoliad 4(4) o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/236 yn caniatáu crynoadau dim ond os oes mesurau bioddiogelwch boddhaol ar waith i atal y risg o drosglwyddo afiechyd. Mae'r drwydded hon yn cwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle mae adar yn cael eu casglu at ei gilydd a bwriad y testun a ganlyn yw helpu ceidwaid adar i ddeall a yw'r rheolau hyn yn berthnasol i'w gweithgarwch hwy.

3) Mae'r nodweddion canlynol yn dangos bod crynhoad adar yn cael ei gynnal:

- dod ag adar o leoliadau gwahanol ynghyd i leoliad y crynhoad, ac wedyn symud i fangre cyrchan yr adar, a all fod eu lleoliadau gwreiddiol neu leoliadau newydd; a

- adar yn aros yn lleoliad y crynhoad am 14 diwrnod neu lai, ar ôl i'r aderyn olaf gyrraedd.

4) Dyma enghreifftiau o grynoadau:

- ffeiriau adar, marchnadoedd, sioeau, gwerthiannau neu arddangosfeydd

- colomennod yn cael eu crynhoi, gan gynnwys cerbydau neu gorlannau rhyddhau, ar gyfer rasio colomennod

- crynhoi adar hela gwyllt (pan maent yn dod o nifer o leoliadau i un lleoliad ac yn cael eu symud wedyn i fangre wahanol)

- symud dofednod gan gynnwys adar anseriforme a galliforme (ac eithrio lle mae'r symud yn syth i'r lladd-dy), gwerthu adar neu ailgartrefu adar, gan gynnwys drwy fasnachu neu werthu ar y rhyngrwyd, 'gwestai' ieir a gwely a brecwast ieir (pan fydd adar wedi'u lleoli dros dro yn rhywle heblaw eu hadeilad arferol, lle mae adar (pa un ai'r rhain sy'n cael eu gwerthu neu beidio) wedi dod i'r fangre yn ystod y 14 diwrnod blaenorol.

- adar o leoliadau lluosog sydd wedi dod ar gerbyd ac yna wedi cael eu gollwng mewn lleoliadau lluosog eraill.

- dofednod (gan gynnwys adar anseriforme neu galliforme) neu wyau deor o un mangre sy'n cael eu cludo i leoliad gwahanol ar gyfer arddangos, gwerthu a lle mae adar caeth eraill hefyd yn bresennol e.e. arddangosfa hebogyddiaeth. Ystyrir bod y crynhoad hwn yn grynhoad dofednod.

5) Er eglurder, nid ydym yn ystyried bod y canlynol yn grynoadau adar:

- casglu adar mewn lladd-dy trwyddedig ar gyfer eu lladd

- dofednod sy’n cael eu dwyn ynghyd o leoliadau gwahanol, ond lle nad oes dim adar yn gadael tan i fwy na 14 diwrnod fynd heibio ers i’r aderyn olaf gyrraedd y fangre

- gwerthu dofednod ac adar anseriforme neu galliforme fel masnachwr neu dros y rhyngrwyd pan nad oes dim adar yn gadael tan i fwy na 14 diwrnod fynd heibio ers i’r aderyn olaf gyrraedd y fangre (Gwaherddir gwerthu gan ddeliwr masnachol adar anwes mewn unrhyw ran o stryd neu fan cyhoeddus, neu mewn stondin neu ferfa mewn marchnad yn unol ag adran 2 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951)

- lle mae’r holl adar sydd wedi cael eu crynhoi wedi dod o’r un fangre ac yn dychwelyd i’r fangre honno wedyn

- gwerthu adar sydd i gyd wedi dod o’r un fangre (arwerthiant gwasgaru neu ‘ailgartrefu’’)

- casglu adar hela gwyllt yn ystod y tymor agored perthnasol pan maent wedi dod o sawl lleoliad ond yn cael eu symud wedyn i un lleoliad, ac yn aros yno ar gyfer bridio a dibenion eraill

- sioe sy’n cynnwys wyau bwrdd yn unig

Nid yw’n fwriad i’r rhestrau yn nodyn 4 a nodyn 5 fod yn rhai cynhwysfawr.

6) Er nad oes angen trwydded ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn grynoadau, mae’n arfer gorau mabwysiadu mesurau bioddiogelwch a chadw cofnod o symudiadau adar i’r fangre ac oddi arni neu ar gerbyd ac oddi arno.

7) Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded ar gyfer eich gweithgarwch, gall APHA roi rhagor o gyngor.

8) Mae Rheoliadau 2006 yn cynnwys y diffiniadau a ganlyn–

   mae "aderyn caeth arall" yn golygu unrhyw adar sy’n cael eu cadw’n gaeth, nad ydynt yn ddofednod ac mae’n cynnwys adar anwes ac unrhyw adar sy’n cael eu cadw ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau, i fagu neu i werthu;

   mae "dofednod" yn golygu pob aderyn sy’n cael eu magu neu eu cadw yn gaeth i gynhyrchu cig neu wyau i’w bwyta, cynnyrch masnachol arall, ail-stocio cyflenwadau adar hela at ddibenion unrhyw raglen fagu i gynhyrchu’r categorïau hyn o adar;

9) Mae Erthygl 11 (Colomenod Rasio) o Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol:

“(1) Rhaid i drefnydd sioe neu ras sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru sicrhau bod yr holl golomennod rasio a gofnodwyd ar gyfer y ras neu'r sioe wedi cael eu brechu rhag paramyxovirus 1 mewn colomennod.

(2) Rhaid i bob person sy'n berchen ar golomennod rasio gadw cofnod o bob ras neu sioe y mae'n mynd iddi gyda'i golomennod.”

10) Mae Strategaeth Rheoli Clefydau Adar Hysbysadwy ar gyfer Prydain Fawr yn diffinio ‘clefyd adar hysbysadwy’ fel ffliw adar a chlefyd Newcastle.

11) Mae Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 yn diffinio “colomen rasio” i olygu unrhyw golomen sy’n cael ei chludo neu y bwriedir ei chludo o’i cholomendy (sef unrhyw adeilad sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw neu fridio colomennod rasio) i’w rhyddhau er mwyn iddi allu hedfan yn ddirwystr yn ôl i’w cholomendy neu i unrhyw gyrchnod arall.

12) Mae diheintyddion sydd wedi’u cymeradwyo i’w defnyddio yn erbyn clefydau dofednod yn cael eu rhestru yn www.gov.uk/guidance/defra-approved-disinfectant-when-andhow-to-use-it

13) Rhaid i unrhyw un sydd ym meddiant unrhyw aderyn neu garcas aderyn, ac yn amau y gallai fod wedi’i heintio â chlefyd adar hysbysadwy, roi gwybod yn syth i swyddfa yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

14) Rhaid cydymffurfio â gofynion perthnasol Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 a/neu Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003.

15) Mae rhagor o gyngor ar fesurau bioddiogelwch ac unrhyw ddeddfwriaeth a all fod yn berthnasol ar gael gan Lywodraeth Cymru, yn GOV.UK neu gan APHA.

16) Mae Trwydded Gyffredinol ar wahân ar gyfer crynoadau o adar caeth eraill.

**Cysylltu ag APHA**

17. Gellir cysylltu ag APHA drwy’r

- Ganolfan Cyngor i Gwsmeriaid yn customeradvice@apha.gov.uk;
- Llinell gymorth Gwasanaeth Gwledig 03000 200 301